| | |
|---|---|
| **Dyddiad creu:** | 17/01/2023 |
| **Dyddiad cyhoeddi:** | 28/02/2023 |
| **Rhif y fersiwn:** | 1.00 |

| | |
|---|---|
| **Maes Gwasanaeth:** | Cymunedau |
| **Maes gwaith:** | Strategaeth a Gweithrediadau Gwastraff |
| **Manylion Cyswllt:** | 01443 866533<br>AILGYLCHU@CAERFFILI.GOV.UK |
| **Enw'r Hysbysiad Preifatrwydd:** | Hysbysiad Preifatrwydd i Gwsmeriaid Gwastraff Masnachol |
| **Disgrifiad o'r Hysbysiad Preifatrwydd:** | Bydd yr hysbysiad preifatrwydd hwn yn esbonio sut y bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn defnyddio gwybodaeth bersonol a gwybodaeth am fusnesau mewn perthynas ag ymholiadau ynglŷn â chontractau gwastraff masnachol a'u trefn nhw. |

# Sut y byddwn ni'n defnyddio eich gwybodaeth chi

## Ffynhonnell a'r math o wybodaeth sy'n cael ei phrosesu

Bydd Strategaeth a Gweithrediadau Gwastraff Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn defnyddio'ch gwybodaeth chi i gysylltu â chwsmeriaid trwy e-bost ar gyfer gohebiaeth ynghylch newidiadau i daliadau masnachol/diwrnodau casglu neu unrhyw beth a allai effeithio ar y casgliadau yn y safle hwnnw. Mae cyfeiriadau e-bost hefyd yn cael eu defnyddio i anfon Dyletswydd Gofal: Nodiadau Trosglwyddo Gwastraff a Reolir (sy'n ofynnol i'r cludwr gwastraff yn ôl y gyfraith), er mwyn lleihau faint o bapur mae'r awdurdod yn ei anfon.

Bydd yr wybodaeth rydyn ni'n ei chasglu gennych chi yn cael ei defnyddio i sefydlu contractau masnachol, gyda gwybodaeth am leoliad y casgliadau, gwybodaeth ynghylch ble i anfon anfonebau am daliadau ar gyfer y contract a chyfeiriad e-bost ar gyfer gohebiaeth a chyflwyno Dyletswydd Gofal. Mae angen manylion cyswllt hefyd ar gyfer unrhyw faterion sy'n ymwneud â chasgliadau neu'r cynhwysydd (hynny yw halogiad masnachol). Byddwn ni'n cysylltu â nhw dros y ffôn neu drwy e-bost a rhoi gwybod iddyn nhw y gallwn ni godi tâl o £40 am bob bin masnachol halogedig, yn unol â thermau ac amodau'r contract.

Mae gwybodaeth sy'n cael ei chasglu gan y ganolfan gyswllt yn cael ei hanfon yn ddiogel ar ffurf electronig at y warden ailgylchu, y gronfa ddata gwastraff masnachol a'r cynorthwyydd technegol sy'n gyfrifol am y maes er mwyn cysylltu â'r cwsmer i roi cyngor ar brisiau, amlder casglu, telerau ac amodau contract ar gyfer y cwsmer i benderfynu a hoffen nhw barhau â'r gwasanaeth. Mae galwadau ffôn a negeseuon e-bost gan gwsmeriaid yn uniongyrchol i'r adran yn cael eu hymdrin yn yr un modd.

Yn ystod y broses o sefydlu cwsmer, mae manylion cyswllt yn cael eu casglu, hynny yw cyfeiriad y busnes, enw cyswllt, llofnodwr awdurdodedig ac ati. Ar ôl cwblhau'r broses hon, mae copi o'r contract yn cael ei gadw ac mae gan y cwsmer gopi.

**Categorïau o ddata personol sy'n cael eu casglu**

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi casglu’r categorïau canlynol o ran eich data personol chi:

- Enw'r busnes
- Cyfeiriad y busnes
- Enw personol
- Cyfeiriad personol
- Rhifau ffôn cyswllt
- Cyfeiriad e-bost personol
- Cyfeiriad e-bost busnes

**Ffynhonnell y data personol**

Mae data personol yn cael ei gasglu yn ystod y broses o ymgeisio am gontract/casgliad gwastraff masnachol.

## Eich rhwymedigaethau chi

Mae rhwymedigaeth gytundebol rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a’r cwsmer/busnes er mwyn cael gwared ar wastraff yn gyfreithlon yn unol ag Adran 34 o Ddeddf Diogelu’r Amgylchedd 1990.

**Mae gennych chi rwymedigaeth i ddarparu'r wybodaeth ofynnol**

Mae rhwymedigaeth statudol arnoch chi i ddarparu’r wybodaeth ofynnol fel sydd wedi'i nodi isod:

Mae gan fasnach/fusnes sy'n cynhyrchu gwastraff ddyletswydd o dan Adran 34 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 i waredu ar eu gwastraff yn gyfreithlon drwy gludwyr/froceriaid gwastraff cofrestredig. Mae'r wybodaeth sy'n cael ei chasglu (sy'n cael ei chrybwyll yn adran 'ffynhonnell a'r math o wybodaeth sy'n cael ei phrosesu') yn ein galluogi ni i ddarparu'r gwasanaeth i'r cyfeiriadau ac i anfon anfonebau yn ôl y gofyn gan fod tâl yn cael ei godi am bob cynhwysydd masnachol.

**Y canlyniadau o beidio â darparu'r wybodaeth ofynnol**

Heb yr wybodaeth hon, ni all Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ddarparu'r gwasanaeth i leoliad y busnes nac anfon gwybodaeth talu i'r cyfeiriad anfonebu a gafodd ei nodi gan y cwsmer. Mae darparu gwasanaeth gwastraff masnachol hefyd yn lleihau ar unrhyw wastraff masnachol/busnes sy'n cael ei waredu'n anghyfreithlon mewn unrhyw Ganolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref ledled y Fwrdeistref Sirol.

## Y diben a'r sail gyfreithiol ar gyfer defnyddio eich gwybodaeth chi

**Diben y gwaith prosesu**

Ar gyfer y broses ymgeisio o ddod yn gwsmer masnachol newydd gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Nid oes gan fusnes sy'n holi am y gwasanaethau unrhyw rwymedigaeth i ddod yn gwsmer. Rydyn ni'n darparu gwybodaeth am wasanaethau, amlder casgliadau, costau, ac ati, ac yna, byddan nhw'n penderfynu a ydyn nhw am barhau ai peidio.

**Sail gyfreithiol ar gyfer y gwaith prosesu**

Mae rhwymedigaeth gytundebol i brosesu eich gwybodaeth chi, sy'n cael ei nodi isod:

Mae contract sy'n rhwymo mewn cyfraith rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a'r busnes ynghylch casglu a gwaredu'r gwastraff masnachol yn y safle.

Er mwyn i brosesu data personol fod yn gyfreithlon o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2016, mae'n rhaid nodi amod dilys o Erthygl 6 o'r Rheoliad, a amlinellir isod (nid yw ar gael yn Gymraeg gan mai dyfyniad o ddeddfwriaeth nad yw wedi ei gwneud yn Gymraeg ydyw):

*1(b) processing is necessary for the performance of a contract to which the data subject is party or in order to take steps at the request of the data subject prior to entering into a contract;*

## Pwy fydd yn cael mynediad at eich gwybodaeth chi?

**Manylion y Rheolydd Data a'r Swyddog Diogelu Data**

Y Rheolydd Data ar gyfer eich gwybodaeth chi yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Y Swyddog Diogelu Data yw:

Mr Carl Evans
Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth Gorfforaethol/Swyddog Diogelu Data
E-bost: DiogeluData@caerffili.gov.uk
Ffôn: 01443 864322

Efallai y bydd Rheolyddion Data eraill hefyd yn gyfrifol am eich gwybodaeth chi, yn dibynnu ar yr amgylchiadau penodol. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'r maes gwasanaeth.

**Manylion am brif ddefnyddwyr eich gwybodaeth chi**

Staff gweinyddol, a staff trin a gwaredu.

**Manylion am unrhyw achos o rannu'ch gwybodaeth chi o fewn Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili**

Mae gwybodaeth am gwsmeriaid masnachol newydd yn cael ei storio gyda'r tîm Strategaeth a Gweithrediadau Gwastraff, yn cael ei hanfon at Mân Ddyledwyr ar gyfer bilio/anfonebu ac, yna, bydd manylion, megis enw a chyfeiriad y busnes a'r biniau a fydd yn cael eu dosbarthu, yn cael eu rhannu â Goruchwylwyr Sbwriel a Glanhau a chriwiau Casglu.

**Manylion am unrhyw achos o rannu'ch gwybodaeth chi â sefydliadau eraill**

Os bydd anfonebau sydd heb eu talu, bydd eich gwybodaeth chi'n cael ei throsglwyddo i gwmni casglu dyledion allanol awdurdodedig.

**Ceisiadau am wybodaeth**

Mae'n bosibl y bydd yr holl wybodaeth wedi'i chadw gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn destun ceisiadau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 a Deddf Diogelu Data 1998.

Os bydd yr wybodaeth wedi'i darparu gennych chi yn destun cais o'r fath, bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn ymgynghori â chi ynghylch ei rhyddhau, lle bo hynny'n bosibl. Os byddwch chi'n gwrthwynebu rhyddhau eich gwybodaeth chi, byddwn ni'n cadw'r wybodaeth yn ei hôl, os bydd y ddeddfwriaeth berthnasol yn caniatáu i hynny ddigwydd.

# Am ba mor hir y byddwn ni'n cadw eich gwybodaeth chi?

### Manylion am y cyfnod cadw

Mae pa mor hir y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn cadw gwybodaeth yn cael ei bennu drwy ofynion statudol neu arfer gorau.

Mae enwau a chyfeiriadau busnesau yn cael eu storio cyhyd â'u bod nhw'n gwsmeriaid i'r awdurdod. Unwaith y bydd contract wedi'i derfynu, bydd yr holl fanylion sydd wedi'u darparu ar gyfer y busnes hwnnw yn cael eu dileu o'r gronfa ddata gwastraff masnachol. Bydd enw a chyfeiriad y busnes a'r rheswm dros derfynu yn cael eu storio a'u harchifo.

# Eich hawliau chi (gan gynnwys y Weithdrefn Gwyno)

### Eich hawliau chi o dan y Ddeddf Diogelu Data

Mae'r Ddeddf Diogelu Data yn rhoi nifer o hawliau i destun y data (y rheiny y mae'r wybodaeth yn sôn amdanyn nhw):

- Hawl i gael mynediad at ddata gan y testun – mae ffurflenni cais ar gyfer y broses hon ar gael ar ein gwefan ni: Ffurflen Cais am Fynediad at Ddata gan y Testun (SAR)
- Yr hawl i gael gwybod
- Yr hawl i gywiro
- Yr hawl i ddileu
- Yr hawl i gyfyngu ar brosesu
- Yr hawl i wrthwynebu
- Yr hawl i gludadwyedd data
- Hawliau mewn perthynas â gwneud penderfyniadau a phroffilio awtomataidd.

Mae rhagor o wybodaeth am eich hawliau chi ar gael ar y wefan hon: www.ico.org.uk

Er mwyn arfer eich hawliau chi, cysylltwch â'r maes gwasanaeth y manylir arno ar frig y ffurflen hon.

### Y Weithdrefn Gwyno

Os ydych chi'n anfodlon â'r ffordd y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi ymdrin â'ch cais/gwybodaeth chi, mae gennych chi'r hawl i gwyno. Cysylltwch â'r maes gwasanaeth y manylir arno ar frig y ddogfen hon gan amlinellu eich materion chi.

Os byddwch chi'n parhau'n anfodlon, mae gennych chi hefyd yr hawl i gwyno wrth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.  Am ragor o wybodaeth am y broses gwyno, dilynwch y ddolen hon.

www.caerffili.gov.uk/My-Council/Data-protection-and-freedom-of-information/Questions-and-complaints?lang=cy-gb

# Crynodeb o'r Hysbysiad Preifatrwydd

## Sut y byddwn ni'n defnyddio eich gwybodaeth chi

Bydd yr wybodaeth rydyn ni'n ei chasglu gennych chi yn cael ei defnyddio i sefydlu contractau masnachol, gyda gwybodaeth am leoliad y casgliadau, gwybodaeth ynghylch ble i anfon anfonebau am daliadau ar gyfer y contract a chyfeiriad e-bost ar gyfer gohebiaeth a chyflwyno Dyletswydd Gofal. Mae enwau a chyfeiriadau busnesau yn cael eu storio cyhyd â'u bod nhw'n gwsmeriaid i'r awdurdod. Unwaith y bydd contract wedi'i derfynu, bydd yr holl fanylion sydd wedi'u darparu ar gyfer y busnes hwnnw yn cael eu dileu o'r gronfa ddata gwastraff masnachol. Bydd enw a chyfeiriad y busnes a'r rheswm dros derfynu yn cael eu storio a'u harchifo. Rydyn ni'n dibynnu ar sail gyfreithiol 'Contract' ar gyfer prosesu eich data chi.

Mae gennych chi nifer o hawliau mewn perthynas â'r wybodaeth, gan gynnwys yr hawl i gael gafael ar wybodaeth sydd gennym ni amdanoch chi a'r hawl i gwyno os ydych chi'n anhapus â'r ffordd y mae eich gwybodaeth chi'n cael ei phrosesu.

I gael rhagor o wybodaeth am sut rydyn ni'n prosesu'ch gwybodaeth chi a'ch hawliau, cliciwch ar y ddolen ganlynol:

{Hyperlink to Full Privacy Notice on our website}